Cymdeithas Gofal Sir Benfro

Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd Rheolwr Gyfarwyddwr, Cymdeithas Gofal Sir Benfro.

Prif bwrpas y swydd

Bod yn atebol am arweinyddiaeth strategol ac ariannol yn darparu cyfeiriad, gweledigaeth ac arloesedd ar gyfer y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pob nod ac amcan.

Cysylltiadau

Yn atebol i	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Yn gyfrifol am	Pob un o weithwyr a gwirfoddolwyr y sefydliad
Yn cysylltu â	Holl randdeiliaid a chyllidwyr y sefydliad
	Arweinyddion Partneriaethau
	Ymgynghorwyr proffesiynol allanol
	Y Comisiwn Elusennau

Prif gyfrifoldebau'r swydd

Sicrhau fod nodau cyfansoddiadol Cymdeithas Gofal Sir Benfro wedi eu cyflawni ac y cedwir atynt.

Darparu arweinyddiaeth gref i gyflogeion y sefydliad a rheolaeth llinell i Gydgysylltwyr y Cynllun.

I reoli sefydlogrwydd ariannol y sefydliad gan gynnwys cynnal ac ehangu ffrydiau cyllido er mwyn cyrraedd pob targed ariannol.

Sicrhau bod y cwmni'n cyrraedd pob safon cydymffurfedd ac ansawdd gofynnol gydag adroddiadau ac ystadegau monitor wedi'u cyflwyno'n brydlon.

I reoli cyflwyno tendrau ar gyfer ariannu a chyflawni gofynion targedau ansawdd ac ariannol manyleb y tendr.

Datblygu a chynnal perthnasau gwaith agos gyda Rhanddeiliaid a phartneriaid presennol a gweithio i ehangu cysylltiadau a gweithgareddau'r sefydliad

Sicrhau bod holl bolisïau a gweithdrefnau Cymdeithas Gofal Sir Benfro'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac yn addas i anghenion y sefydliad.

Cynnal a datblygu systemau effeithlon i sicrhau gweithrediad effeithiol pob cynllun oddi mewn i'r sefydliad.

Sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu cefnogi, ac yn cael eu hysbysu o sefyllfa weithredol ac ariannol gyfredol Cymdeithas Gofal Sir Benfro.

Nid yw'r uchod yn rhestr gynhwysfawr o gyfrifoldebau. Disgwylir i chi ymgymryd â'r cyfrifoldebau eraill hynny sy'n addas i amcanion cyffredinol y sefydliad.